OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 3093 (Cy.311)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Rhagfyr 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Rhagfyr 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Ionawr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 3 Ionawr 2013.

**Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 7 rhodder—

“**Modiwleiddio gwirfoddol**

**7.** Y cyfraddau yn nhrydedd golofn yr Atodlen yw'r modiwleiddio gwirfoddol y cyfeirir ato yn Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 378/2007 sy'n pennu rheolau ar gyfer modiwleiddio yn wirfoddol y taliadau uniongyrchol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad (EC)

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p.68. Cafodd adran 2(2) ei diwygio gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) 27(1)(a) a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7), Rhan 1 o'r Atodlen.
(**3**) 2010/1892 (Cy.185).

Rhif 1782/2003(**4**) am y cyfnod 2009 i 2012 a'r addasiad gwirfoddol y cyfeirir ato yn Erthygl 10b o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009(**5**) ar gyfer 2013(**6**).”

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yn y tabl â'r pennawd “Ar gyfer symiau hyd at a chan gynnwys £5,000” ar ôl y rhes sy'n ymwneud â 2012, mewnosoder—

| | | | |
|---|---|---|---|
| “2013 | 0% | 6.5% | 6.5%”; |

(b) yn y tabl â'r pennawd “Ar gyfer symiau dros £5,000 a hyd at a chan gynnwys £300,000”, ar ôl y rhes sy'n ymwneud â 2012, mewnosoder—

| | | | |
|---|---|---|---|
| “2013 | 10% | 1.5% | 11.5%” ; ac |

(c) yn y tabl â'r pennawd “Ar gyfer symiau dros £300,000”, ar ôl y rhes sy'n ymwneud â 2012, mewnosoder—

| | | | |
|---|---|---|---|
| “2013 | 14% | 0% | 14%”. |

*Alun Davies*
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2012

(**4**) OJ Rhif L 95, 5.4.2007, t 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 1231/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 326, 8.12.2011, t 24).
(**5**) OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 671/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 204, 31.7.2012, t 11).
(**6**) Y cyfraddau yn yr ail golofn, a ddarperir er mwyn bod yn gyflawn, yw'r cyfraddau gorfodol modiwleiddio y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 7 o Reoliad y Cyngor 73/2009 am y cyfnod 2009 i 2012 a'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 10a o Reoliad y Cyngor 73/2009 ar gyfer 2013.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1892) (Cy.185) ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t 16), ac offerynnau cysylltiedig eraill yr UE, mewn perthynas â chynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu ar gyfer didyniadau modiwleiddio ychwanegol a gaiff eu gwneud o'r taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer 2013.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, nac unrhyw effaith sylweddol, ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.